

# 20. Os Gwelwch Yn Dda, Be Ydy'r Nadolig?

## CYMERIADAU

- LI-SW – ffoadures ifanc
- RHIAN
- NIA
- DAFYDD
- IFAN
- MISS OWEN
- MAIR
- JOSEFF
- ANGEL – ac angyllion eraill
- SIMON – bugail
- LABAN – bugail
- LEFI – bugail
- DANIEL
- SARA
- RACHEL
- MELCHIOR
- CASPAR
- BALTHASAR
- PLANT ERAILL

---

## GOLYGFA 1

CAROL: Dewiser unrhyw garol boblogaidd.

Iard chwarae ysgol yn ystod mis Hydref. Mae'r plant yn chwarae, grŵp yma ac acw yn chwarae gemau gwahanol. Mae LI-SW yn sefyll ar ei phen ei hun, mae'n edrych yn drist iawn. Mae dwy ferch fach sy'n sefyll yn agos yn cael seibiant ar ôl chwarae pêl.

NIA: Dylen ni ofyn i Li-Sw i chwarae efo ni.

RHIAN: [*Yn petruso*] Wyt ti'n meddwl y daw?

NIA: Ydy, mae hi'n fwy clyfar na ni, gallwn ni ddim ynganu ei henw llawn yn gywir. O! mae hi'n edrych mor drist. Dwi'n meddwl bod pobl mewn oed yn gas iawn weithiau. Pam oedd raid iddyn nhw ffoi o'u gwlad?

RHIAN: Tydw i ddim yn gwybod. Mae Dad yn deud mai ar lywodraeth eu gwlad nhw roedd y bai ond wn i fawr ddim am lywodraethau. Mae'n rhaid eu bod nhw'n bobl greulon iawn. Oeddet ti'n gwybod ei bod wedi gadael ei chartref ar long fechan efo criw o ffoaduriaid eraill, ac ychydig iawn o fwyd oedd ganddyn nhw i'w rannu?

NIA: Does dim rhyfedd ei bod yn edrych mor drist. Dylen ni ei helpu hi.

RHIAN: Tyrd ymlaen 'ta, awn i ofyn iddi a fysa hi'n hoffi dod i chwarae efo ni.

NIA: Li-Sw, hoffet ti ddod i chwarae efo ni?

RHIAN: Plis Li-Sw, rydyn ni eisiau i ti ddod i chwarae gêm yn iawn.

[*Mae'r tair ohonynt yn rhedeg i ran arall o iard yr ysgol ac yn dechrau chwarae. Yna, daw IFAN a DAFYDD atynt. Maen nhw'n chwarae am dipyn, yn aros am ysbaid i gael eu gwynt atynt. Mae DAFYDD yn estyn bag bach o fferins o'i boced*]

DAFYDD: Choeliech chi fyth! Roeddwn i wedi anghofio am y rhain.

[*Mae'n pasio'r bag fferins fel bod y pump ohonynt yn cael rhai*]

LI-SW: [*Yn gwenu*] Rwyd ti'n garedig iawn.

IFAN: [*Yn cnoi'n swnllyd*] Rwyd ti'n medru siarad Cymraeg yn dda Li-Sw. Fe ddoi di i arfer â byw yma cyn bo hir, gei di weld!

LI-SW: Ond eich tywydd! Tydw i ddim yn ei hoffi. Mae hi mor oer ac mae'n bwrw glaw o hyd!

RHIAN: [*Yn chwerrthin*] Wel, mae hynny am fod y gaeaf yn agosáu! Ond yn wir i ti Li-Sw, mae'n braf iawn yma yn ystod yr haf. Wir yr!

NIA: Ydy, mae hi'n gynhesach yn yr haf ond mae'n well gen i'r gaeaf am ryw reswm!

DAFYDD: Ie, a'r Nadolig ydy un rheswm. Fe fydd hi'n Nadolig cyn bo hir!

LI-SW: [*Yn pendroni*] Plis, be ydy Nadolig?

IFAN: Druan ohonot ti, Li-Sw. Roeddwn i'n meddwl fod pawb yn gwybod am y Nadolig. Mae'n amser braf iawn. Byddwn yn cael anrhegion ...

DAFYDD: A thwrci a mins peis!

NIA: A choeden Nadolig a chanu carolau yn yr eglwys.

RHIAN: Ond rydach wedi anghofio'r peth pwysicaf. Pen-blwydd Iesu – dyna'r peth gorau!

LI-SW: [*Mewn penbleth*] Ond tydw i ddim yn deall!

IFAN: Wel, digwyddodd hynny amser maith, maith yn ôl.

[*Clywir sŵn cloch yr ysgol*]

O, dyna'r gloch, rhaid i ni fynd i mewn rŵan.

NIA: Wn i! Fe ddywedwn wrth Miss Owen nad ydy Li-Sw yn gwybod dim am y Nadolig. Fe fedrith hi egluro'n llawer gwell na ni.

RHIAN: Dyna syniad da! Tyrd yn dy flaen Li-Sw. Ie, fe wnaiff Miss Owen ddeud wrthat ti.

[*Maen nhw'n mynd allan*]

CAROL: ‘O! dawel ddinas Bethlehem’, *Clychau’r Nadolig*.

[*Yr un diwrnod, ac ar ôl oriau ysgol. Mae MISS OWEN yn tacluso’r dosbarth cyn mynd adre. Daw NIA, RHIAN, DAFYDD ac IFAN i mewn*]

RHIAN: Os gwelwch yn dda, Miss Owen!

NIA: Esgusodwch ni, Miss Owen, mae hyn yn ymwneud â Li-Sw.

[*Edrycha MISS OWEN yn syn, ond cyn iddi hi gael dweud gair ...*]

DAFYDD: Newydd gael gwybod am hyn ydan ni. Tydi hi ddim yn gwybod dim byd am y Nadolig!

IFAN: Tydi hi ddim yn gwybod am yr anrhegion a’r pethau blasus i’w bwyta a’r baban yn y preseb!

MISS OWEN: Rŵan ’ta, arhoswch funud! Ydach chi wedi aros ar ôl yn unswydd i ddeud hyn wrtha i?

RHIAN: Ond roedden ni’n meddwl ...

IFAN: Tybed, Miss Owen ..?

NIA: Allwch chi ddeud wrthi Miss?

DAFYDD: Mae hi’n ddigalon weithiau. Fe ddyla stori’r Nadolig godi’i chalon hi.

MISS OWEN: O! Rydw i’n gweld! Rydw i’n falch eich bod yn ffrindiau efo hi. Mae hi’n dod o deulu parchus iawn, ond dydyn nhw ddim yn Gristnogion. [*Mae’n aros am funud*] Rhaid i ni sôn am y Nadolig wrthi. Arhoswch funud, mae gen i syniad da! Fe wnawn ni ddrama fach – drama am stori’r Nadolig. Ond fe fydd rhaid i chi weithio’n galed a dysgu’ch geiriau yn iawn.

RHIAN: O Miss Owen! Gawn ni wisgo i fyny hefyd?

MISS OWEN: Cewch wrth gwrs, ac fe gewch chi ganu carolau. Fe feddylia i dros y peth, ond rhaid i chi fynd adre rŵan rhag ofn bod eich mamau’n poeni amdanoch. Ddyweda i wrth Li-Sw ei bod hi am gael syrpreis bach ond fe’i cadwn yn gyfrinach am dipyn. Rŵan ’ta, ffwrdd â chi – a Ifan, gwisga dy gôt, mae’n oer iawn pnawn ’ma.

[*Mae’r plant yn mynd allan*]

MISS OWEN: [*Yn rhoi allwedd i yn ei bag*] Druan ohoni. Dim ond gobeithio y bydd hi’n hapus yn ein plith.

CAROL: ‘Carol o Ffrainc’, *Clychau’r Nadolig*.

## GOLYGFA 2

Neuadd yr ysgol, ychydig cyn y Nadolig. Daw MISS OWEN a LI-SW i mewn.

LI-SW: *[Yn siarad bymtheg y dwsin]*

Os gwelwch yn dda wnewch chi ddeud wrtha i am eich Nadolig. Rydw i wedi sylwi fod y siopau wedi'u haddurno'n ddel a bod yna oleuadau hyfryd ar y coed, ond tydw i ddim yn gwybod pam chwaith!

MISS OWEN: Dim ond addurniadau ydyn nhw Li-Sw. Rydym am ddeud stori wrthat ti – stori ddifyr am faban, seren, bugeiliaid ac angylion. Digwyddodd hyn i gyd flynyddoedd maith yn ôl mewn gwlad ymhell oddi yma. Roedd merch ifanc o'r enw Mair yn byw mewn pentref bychan o'r enw Nasareth. Tyrd yma i eistedd wrth fy ochr i ac fe gaiff y plant ddangos i ni be ddigwyddodd y Nadolig cyntaf hwnnw. Dwi'n gobeithio y byddi di'n deall yn well wedyn.

*[Mae'r ddwy'n eistedd. Daw MAIR i mewn. Mae'n ysgubo'r llawr ac yn canu'n dawel. Mae ANGEL yn agosáu yn ddistaw ac araf]*

ANGEL: Mair!

*[Mae MAIR yn troi a gweld yr ANGEL. Mae ofn mawr arni, ac mae'n gollwng ei brwsh llawr]*

MAIR: Pwy ydych chi?

ANGEL: Peidiwch ag ofni. Negesydd Duw ydw i. Gabriel ydy fy enw i.

MAIR: Ydych chi'n golygu fod gan Dduw neges i mi? Dim ond merch ifanc ydw i, tydw i ddim yn gyfoethog na chlyfar. Pam mae o f'angen i?

ANGEL: Mae o dy angen di am dy fod yn ferch dda, addfwyn a charedig. Byddi'n esgor ar fab bychan; rhaid i ti ei alw'n Iesu. Bydd o'n un pwysig iawn iawn ac ni fydd diwedd ar ei deyrnas – ti fydd mam y Meseia.

MAIR: Ond! Ond tydw i ddim yn briod! Tydw i ddim yn deall o gwbl!

ANGEL: Paid â cheisio deall Mair, ond cadw dy ffydd yn Nuw.

MAIR: Fe wna fy ngorau. Rydw i'n forwyn i Dduw, fe wna i fel y mae o'n ei ddymuno.

*[Mae'r ANGEL yn codi ei law ac yn mynd yn araf oddi ar y llwyfan. Mae MAIR yn penlinio]*

MAIR: Diolch i ti o Dduw am fy newis i i fod yn fam i dy fab. Byddaf yn ei garu ac yn gofalu'n dynner amdano. Felly, helpa fi os gweli'n dda!

*[Mae MAIR yn mynd allan]*

CAROL: 'Ceidwad Byd', *Clychau'r Nadolig*.

[*Pentref Nasareth. Y tu allan i gartref JOSEFF, y saer*]

JOSEFF: Rhaid inni ddechrau'r siwrnai cyn bo hir! Y Rhufeiniaid sy'n ein rheoli rŵan a does dim pwynt dadlau efo nhw. Rhaid i bawb fynd i'r man lle cawson nhw eu geni er mwyn cael eu cofrestru, felly mae'n rhaid, gwaetha'r modd, i ni drafaelio i Fethlehem.

MAIR: Poeni am y baban ydw i, ond dywedodd yr angel wrtha i am ymddiried yn yr Arglwydd; fe fydd o yn ein gwarchod rhag drwg.

JOSEFF: Ie, rwyt ti'n iawn Mair. Mae gynnnon ni daith o wyth deg milltir ar draws gwlad garegog, felly gwell i ni gychwyn cyn gynted ag y gallwn ni.

[*Mae'r ddau'n mynd allan*]

[*Stryd ym Methlehem. Daw MAIR a JOSEFF i mewn yn araf a blinedig. Maen nhw'n aros am funud ac yn edrych o'u cwmpas*]

MAIR: Bethlehem o'r diwedd. Nawr fe gawn gyfle i orffwys. Tydw i ddim yn meddwl y medra i fynd gam ymhellach heno.

JOSEFF: Paid â phoeni Mair. Mae 'na lety draw yn y fan yna. Mae ein taith ni drosodd.

[*Maen nhw'n cerdded tuag at y llety. Mae DANIEL, SARA a RACHEL y tu allan*]

JOSEFF: Os gwelwch yn dda, letywr, oes yma le i ni aros?

DANIEL: Na, alla i ddim. Does dim lle!

JOSEFF: Ond mae'n rhaid i ni gael lle i aros! Allwch chi ddim dod o hyd i gornel fach i fy ngwraig?

DANIEL: Mae'r lle yn llawn – at yr ymylon. Rydw i wedi deud wrthoch chi – dim lle.

SARA: Ond Daniel, mae angen man i orffwys ar y ferch ifanc yma!

DANIEL: Yna, bydd yn rhaid iddi fynd i rywle arall. Gall y ddwy ohonoch chi fentro gneud rhywfaint o waith hefyd.

[*Maen nhw'n gadael dan rwgnach! Mae MAIR yn dechrau crio a rhydd RACHEL ei braich ar ei hysgwydd i'w chysuro*]

RACHEL: Paid â chrïo. Fe ofalwn ni amdanat ti. Paid â chymryd sylw ohono fo!

SARA: Cewch aros yn y stabl. Mae'n gynnes yno, a bydd yr ychen a'r asyn yn falch o'ch cwmni. Dewch ymlaen.

JOSEFF: Rydach chi'n garedig iawn. Fe dalith Duw i chi!

[*Maen nhw'n mynd allan*]

CAROL: 'Carol o Wlad Pŵyl', *Clychau'r Nadolig*.

### GOLYGFA 3

Mae'r BUGEILIAID yn y caeau ger Bethlehem. Mae'n dawel a thywyll; eistedda'r BUGEILIAID mewn cylch bychan.

SIMON: Wel, dyma noson glir braf. Mae hi mor dawel ac mae'r sêr yn werth eu gweld!

LABAN: Ydyn, mae 'na filoedd ohonynt a hon [*mae'n pwyntio*] ydy'r fwyaf a'r ddisgleiriaf yr ydw i wedi'i gweld erioed.

LEFI: Fe sylwais i arni neithiwr. Roedd hi'n symud bryd hynny, yn symud o gyfeiriad y dwyrain. 'Sgwn i be sydd ar droed? Mae hi wedi aros uwchben Bethlehem.

LABAN: Pam ddylai rhywbeth fod ar droed? Dim ond seren ydy hi.

SIMON: Fe allai hi fod yn arwydd.

LABAN: Arwydd o be?

LEFI: Arwydd oddi wrth Dduw – tydw i ddim yn gwybod be ydy'r rheswm ond mae rhai yn credu yn y pethau hyn.

LABAN: Twt lol!

SIMON: 'Sgwn i pam nad ydy hi'n symud rŵan?

LABAN: Petai'r blaidd yn bwyta un o'r ŵyn fe fydden ni'n difaru ein bod ni wedi gwastraffu amser yn astudio'r sêr. [*Mae'n aros am funud*] Rydw i'n clywed sŵn canu swynol o rywle, ond pwy fyddai'n canu'r adeg yma o'r nos yn y bryniau uwchben Bethlehem?

CAROL: [*Yn cael ei chanu tu ôl i'r llwyfan – 'O clywch ganu swynol gân', Clychau'r Nadolig*]

[*Daw'r ANGYLION ar y llwyfan. Mae'r BUGEILIAID yn cuddio'u hwynebau mewn ofn*]

ANGEL: Fugeiliaid, peidiwch ag ofni. Cefais fy anfon gan Dduw i roi newyddion da i chi, newyddion da i'r holl genhedloedd. Heno, ganwyd baban yn ninas Dafydd, baban a fydd yn waredwr byd.

LEFI: [*Yn cysgodi ei lygaid*] Ond lle mae o? Sut y gallwn ni ddod o hyd iddo?

ANGEL: Fe rodde i arwydd i chi. Cewch yr un bach wedi ei rwymo mewn cadachau a'i ddodi yn y preseb.

[*Daw llu'r ANGYLION i mewn, maen nhw'n amgylchynu'r ANGEL dan ganu ac yna'n gadael y llwyfan. Mae'r BUGEILIAID yn codi ar eu traed ac yn edrych mewn syndod ar ei gilydd*]

SIMON: Rŵan 'ta, be wnawn ni?

LEFI: Wn i ddim amdanoch chi ond rydw i am fynd yn ôl i Fethlehem. Fe ddywedais i wrthach chi am y seren ond doeddech chi ddim yn fy nghredu.

*[Mae o'n gadael y llwyfan yn frysïog, a'r gweddill yn rhedeg ar ei ôl]*

LABAN: Aros amdanon ni! Rydan ni'n dod hefyd!

*[Maen nhw'n mynd allan]*

CAROL: 'Iesu Faban', *Clychau'r Nadolig*.

*[Y stabl. MAIR a JOSEFF a'r baban yn y preseb. Mae tri o blant bach yn syllu ar y baban, mae SARA a RACHEL yn y cefn]*

JOSEFF: Rydach chi wedi bod yn amyneddgar a charedig iawn.

MAIR: Rydan ni'n ddiolchgar iawn i chi'ch dwy!

SARA: Dyma'r tro cyntaf i faban bach gael ei eni yn y fan hyn.

RACHEL: Bu'r hen breseb o ddefnydd mawr wedi'r cwbl.

*[Clywir sŵn lleisiau fel daw'r BUGEILIAID ar y llwyfan]*

PLENTYN 1: Mae rhywun yn dod!

PLENTYN 2: Maen nhw'n swnllyd iawn.

PLENTYN 3: Mi fyddan nhw'n siŵr o ddeffro'r baban bach.

*[Daw'r BUGEILIAID i mewn. Maen nhw wedi colli eu hanadl ac yn llawn cyffro]*

SIMON: Rydan ni wedi dod i weld y baban. Y fo ydy'r Meseia.

SARA: Pwy ddeudodd wrthoch chi am y baban?

LABAN: Angel ddeudodd wrthon ni, angel wedi'i wisgo mewn gwisg wen ddisglair.

Roedden ni'n gofalu am y defaid pan ddaeth o. A dyma fo'n deud –

LEFI: *[Yn torri ar draws]* A dyma fo'n deud, – “Heno, ganwyd baban ym Methlehem. Dewch o hyd iddo yn y preseb. Y fo ydy gwarddwr y byd.”

SIMON: Felly, dyma ni'n rhedeg yr holl ffordd yma er mwyn dod o hyd iddo a'i addoli.

*[Maen nhw'n penlinio wrth y preseb – yna'n codi'n araf]*

LABAN: Rhaid i ni fynd yn ôl at y defaid rŵan.

LEFI: Wnawn ni byth anghofio'r hyn a ddigwyddodd heno.

SIMON: Ac fe ddywedwn wrth bawb am y Meseia yn y preseb.

*[Maen nhw'n codi'u dwylo wrth ffarwelio – yna'n mynd allan]*

RACHEL: Mair, ydy hyn yn wir? Ai dy faban di ydy'r Meseia?

MAIR: Ydy, mae hyn i gyd yn wir.

SARA: Yna, fe wnawn fel ag y gwnaeth y bugeiliaid – fe wnawn ni ei addoli wrth ei grud.

*[Mae RACHEL a SARA'n penlinio – ymuna'r plant â hwy hefyd. Yna maen nhw'n mynd allan]*

CAROL: 'Dos, dywed ar y mynydd', *Clychau'r Nadolig*.

#### **GOLYGFA 4**

Ar y ffordd i Fethlehem. Daw'r DOETHION i mewn.

MELCHIOR: Does gynnwng ni fawr o ffordd i fynd eto. Dwi'n siŵr ein bod yn agos i Fethlehem.

BALTHASAR: Tydi'r seren ddim yn symud dim – edrychwch, mae hi wedi aros fan draw.

CASPAR: Mae rhyw fath o adeilad yna – mae'r seren uwchben y lle.

MELCHIOR: Fan yna y down ni o hyd i'r plentyn.

CASPAR: *[Yn amau hynny]* Chreda i mo hynny! Mae'n edrych yn lle tloidaidd iawn i mi.

BALTHASAR: Rydw i'n cytuno efo Melchior. Mae'r seren wedi'n tywys ar hyd y ffordd, wnaiff hi ddim ein gadael rŵan. Gadewch i ni fynd ymlaen, cawn weld droson ni ein hunain wedyn.

*[Maen nhw'n dod at y llety]*

MELCHIOR: Rhyw fath o fan cysgodi anifeiliaid ydy o, ddown ni ddim o hyd i'r brenin yn y fan hyn! Neu fe fyddai'n anodd credu hynny.

CASPAR: Byddai'n wir! Siawns na fyddai mab Duw yn cael ei eni mewn lle crandiach na hwn! Mae'n lle mor llwm ac oeraidd.

BALTHASAR: Rhaid i chi gredu – achos mae o yma. Mae disgleirdeb ei seren yn llenwi'r lle.

*[Maen nhw'n symud yn agosach at y stabl ac yn mynd at y preseb fesul un. Maen nhw'n cyflwyno eu hanrhegion ac yna'n penlinio]*

MELCHIOR: Rydan ni wedi bod yn teithio am ddyddiau yn chwilio am frenin y brenhinoedd. Daethon ni o hyd iddo yn y stabl lom. Addolaf ef a rhoddaf aur iddo.

[*Mae'n cyflwyno'r aur*]

CASPAR: Buom yn dilyn y seren ddisglair gan obeithio dod o hyd i fab Duw. Cawson ni ef yma yn y stabl. Addolaf ef a rhoddaf fyrr iddo.

[*Mae'n cyflwyno'r myrr a BALTHASAR yn cyflwyno thus*]

MAIR: Onid ydy hyn yn beth rhyfedd! Sef eich bod chi, wŷr doeth, cyfoethog yn penlinio yma o flaen y preseb tlawd, yn addoli'r baban. Mae'n anrhydedd i ni eich cael chi yma.

JOSEFF: Siwrnai ddiogel i chi. Boed i Dduw fod gyda chi.

MELCHIOR: Mae'n hapusrwydd yn gyflawn. Gwelson ni frenin y brenhinoedd.

CASPAR: Daeth mab Duw i fyd dynion.

BALTHASAR: Bydd y cenedloedd yn penlinio o'i flaen a thrwy'r canrifoedd i ddod, bydd ei ddilynwyr yn cofio am ei eni yn y stabl. Byddan nhw'n cofio ac o'i herwydd o byddan nhw'n dysgu caru ei gilydd, gan mai ei enw ef ydy Cariad.

[*Daw gweddill y cymeriadau i mewn dan ganu 'Yn gynnar heddiw'r bore', Clychau'r Nadolig. Wedyn bydd y PLANT, y BUGEILIAID a'r DOETHION yn canu 'Wele yn y preseb tlawd', Clychau'r Nadolig. Mae MISS OWEN a LI-SW yn sefyll ac yn camu ymlaen. Mae LI-SW yn llawn cyffro a brwdfrydedd*]

LI-SW: O! Dyna stori dda! Ai oherwydd y baban bach yna yr ydach chi mor hapus – ai dyna ydy'ch Nadolig?

MISS OWEN: Ie Li-Sw – mae hyn i gyd oherwydd bod y baban bach yna yn fab Duw. Rydan ni'n dathlu'r Nadolig – amser pen-blwydd y baban, byddwn yn addurno'r siopau a'n tai a'r ysgolion. Ceisiwn hefyd garu ein gilydd oherwydd y mae o yn ein caru ni gymaint.

LI-SW: Ond fedra i ddim siarad Cymraeg yn dda iawn, tydi fy nghroen i ddim yn wyn fel eich un chi a hynny am fy mod yn dod o gyfandir arall. Ydy o yn fy ngharu i hefyd?

MISS OWEN: Mae o yn dy garu di'n fawr iawn Li-Sw. Does dim ots gan Dduw pa iaith y bydd pobl yn ei siarad na chwaith pa liw ydy eu croen. Mae o yn ein caru ni i gyd, y du, y gwyn. Ei ddymuniad o ydy i ni garu a gofalu am y rhai sy'n drist ac unig, yn newynog ac amddifad. Tyrd Li -Sw, tyrd efo fi at y preseb ac fe gei dithau addoli'r brenin newydd ei eni.

CAROL: 'Yn gynnar heddiw'r bore', *Clychau'r Nadolig*.

**DIWEDD**